

Polisi Addasiadau Rhesymol Siambrau Angel

1. Mae Siambrau Angel yn ymroi i wneud addasiadau rhesymol er mwyn tynnu neu leihau anfantais sylweddol i bobl anabl sy'n gweithio gyda'r siambrau neu'n cael gwasanaethau cyfreithiol ganddynt. Mae'r polisi hwn yn cwmpasu ymdriniaethau'r siambrau gyda'r holl weithwyr, bargyfreithwyr, clercod, disgyblion, mini ddisgyblion ac ymwelwyr â'r siambrau.

2. Caiff y polisi hwn ei gylchredeg i bob aelod, staff a disgybl y mae angen iddynt ei ddarllen a'i ddeall.

3. DIFFINIO ANABLEDD

At ddiben y polisi hwn, mae'r diffiniad o anabledd yn dilyn yr hyn a osodwyd yn adran 6 Deddf Cydraddoldeb 2010. Felly, mae person yn anabl os oes ganddo neu ganddi nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar ei allu/gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Golyga "sylweddol" mwy na mân neu ddibwys a golyga "tymor hir" 12 mis neu'n fwy.

4. Mathau o Addasiad Rhesymol

Nid yw'r polisi hwn yn darparu rhestr gynhwysfawr o'r holl addasiadau rhesymol y bydd siambrau'n eu gwneud i'r staff, bargyfreithwyr, disgyblion neu ymwelwyr ond mae'r mathau canlynol o addasiadau a allai gael eu gwneud wedi'u rhestru isod:

- darparu cyfleusterau ystafell gynadledda hygyrch
- trefniadau i gynhadledd ddigwydd yng nghartref y cleient neu yn swyddfeydd y cyfreithiwr os nad yw mynychu'r siambrau'n rhesymol ymarferol
- darparu dolenni anwytho ar gyfer anableddau clyw
- darparu gwybodaeth ar ffurf electronig ac/neu mewn print mawr

5. Staff neu Fargyfreithwyr ac eraill yn y siambrau

Dylai staff neu fargyfreithwyr gyda gofynion penodol wneud ceisiadau i'r Pennaeth Siambrau am benderfyniadau ar addasiadau rhesymol. Bydd pob cais am addasiadau rhesymol yn cael eu hystyried fesul achos gyda chyngor a chymorth Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Siambrau a

Ile nad yw hi'n bosibl gwneud yr addasiad y gofynnwyd amdano, bydd Alison Donovan yn trafod dewisiadau ymarferol gyda'r ymgeisydd.

6. Mae'r Pennaeth Siambrau'n gyfrifol am ystyried a oes angen cymorth ar staff, bargyfreithwyr neu ddisgyblion anabl yn ystod achos o adael mewn argyfwng ac os oes, a oes angen cynllun wrth gefn personol i'r unigolion dan sylw. Os oes, bydd y cynllun yn cael ei ddatblygu ar y cyd â'r unigolyn/unigolion dan sylw er mwyn sicrhau y gellir gwneud addasiadau i'r weithdrefn gadael mewn argyfwng.

7. Ymwelwyr i'r siambrau

Mae bargyfreithwyr yn gyfrifol am ystyried y ceisiadau addasiadau rhesymol ar gyfer eu cleientiaid. Nhw hefyd sy'n gyfrifol am ragweld unrhyw addasiadau rhesymol tebygol y bydd angen eu gwneud i ymwelwyr y gwyddant eu bod yn anabl ac yn debygol o angen cymorth. Gellir gwneud ceisiadau i ymwelwyr am addasiadau rhesymol penodol trwy gysylltu â'r clercod, sef Marc Baker (gwaith sifil a theulu) neu Rob Elliott (gwaith troseddol).

8. Ni fydd Siambrau Angel yn trosglwyddo cost addasiadau rhesymol i'r person anabl dan unrhyw amgylchiadau.

9. Mabwysiadwyd y polisi hwn ar 1 Ionawr 2013 a bydd yn cael ei adolygu bob 2 flynedd.

Gweld/lawrlwytho fersiwn y gellir ei hargraffu